



WCRC Gwobr Dechrau Gyrfa Canllawiau i ymgeiswyr

(Mai 2025)



Beth yw Gwobr Dechrau Gyrfa WCRC?

Mae Canolfan Ymchwil Cancer Cymru (WCRC) yn gweithio mewn partneriaeth ledled Cymru i feithrin galluedd ymchwil, broceru cydweithio a chyflawni gweithgaredd sy'n galluogi ymchwil. Mae WCRC yn chwarae rhan allweddol wrth gyflawni Strategaeth Ymchwil Cancer Cymru Gyfan (CReSt). Mae CReSt yn diffinio meysydd cryfder ymchwil Cymru, gan amlinellu chwe thema allweddol lle rydym yn arbennig o gryf: oncoleg fanwl a mecanyddol; imiwno-oncoleg; radiotherapi; treialon clinigol cancer; oncoleg lliniarol a chefnogol; ac atal ar sail poblogaeth, canfod cynnar, gofal sylfaenol ac ymchwil i wasanaethau iechyd.

Mae Gwobr Dechrau Gyrfa wedi'i dylunio i ddarparu man cychwyn i unigolion brwdfrydig iawn sy'n dod i ddiwedd PhD ac sy'n cael eu hannog i ddilyn gyrfa ymchwil annibynnol mewn maes ymchwil cancer y maent yn frwd iawn drosto, gan gyd-fynd ag un neu fwy o themâu CReSt.

Bwriad y wobwr hon yw darparu llwyfan lle gall ymchwilwyr gynhyrchu data rhagarweiniol, creu modelau neu ddatblygu sgiliau wrth iddynt lunio a chyflwyno ceisiadau i sicrhau cyllid dilynol iddynt eu hunain. Felly, mae'n ganlyniad gofynnol o'r wobwr bod yn rhaid i'r ymgeisydd fod wedi nodi ffynhonnell o gyllid dilynol ymlaen llaw ar gyfer eu cyflog a dangos y bydd amserlenni'r cais a'r canlyniad yn eu galluogi i symud ymlaen yn ddi-dor i'r cyllid hwn os yw'n llwyddiannus.

Pa ymchwil fydd yn cael ei chefnogi?

Bwriad Gwobr Dechrau Gyrfa yw nodi unigolion talentog ar ddiwedd eu PhD sydd â brwdfrydedd i symud ymlaen i yrfa ymchwil cancer annibynnol, ac sydd angen man cychwyn tuag at y nod hwn. Bydd ymgeiswyr yn gyfrifol am gynnig teitlau ymchwil priodol i gyd-fynd â'r maes ymchwil cancer y maent yn bwriadu gweithio ynddo, y mae'n rhaid iddo fod yn berthnasol i un neu fwy o themâu CReSt.

Wrth wneud cais, rhaid i ymgeiswyr ddangos bod ganddynt weledigaeth glir ar gyfer yr hyn y maent am ei gyflawni yn ystod y cyfnod ariannu, a gallu dangos sut bydd hyn yn hanfodol iddynt ddatblygu eu gyrfa fel ymchwilwyr annibynnol; er enghraifft, cynhyrchu data rhagarweiniol, datblygu sgiliau ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Bydd angen i ymgeiswyr hefyd ddangos sut mae'r gwaith arfaethedig yn wahanol i'w PhD, neu sut mae'n adeiladu ar ei PhD.

Bydd gofyn i bob ymgeisydd ddarparu datganiad cefnogaeth goruchwyliwr i ddangos bod eu cynnig ymchwil wedi cael cefnogaeth eu sefydliad addysg uwch, a bod gan eu goruchwyliwr y capasiti i'w cynnal.

Pa gyllid sydd ar gael?

Mae cyllid cyflog ar gael ar gyfer rhwng 6 a 12 mis. Bydd cyflog yn cael ei ddyfarnu yn ôl sefydliad cynnal yr ymgeisydd, ar y band safonol ar gyfer ceisiadau ôl-PhD:

- Prifysgol Caerdydd: Gradd 6 (pwynt cychwyn ar y raddfa); sy'n cyfateb i Gymrawd Ymchwil
- Prifysgol Abertawe: Gradd 7 (pwynt cychwyn ar y raddfa); sy'n cyfateb i Cynorthwydd Ymchwil
- Prifysgol Bangor: Gradd 7 (pwynt cychwyn ar y raddfa); sy'n cyfateb i Swyddog Ymchwil

Sylwch fod yn rhaid gwario arian erbyn Chwefror 2027.

Mae uchafswm o £5,000 o gyllid ar gael ar gyfer nwyddau traul y prosiect ar gyfer gwobrau 12-mis; mae hyn yn cael ei ddyrannu pro rata ar gyfer gwobrau o gyfnod byrrach.

Ni fydd y cyllid hwn yn talu am orbenion cyflog; unrhyw gostau sy'n ymwneud ag ymchwil anifeiliaid; costau ystadau; unrhyw ffurf ar ffioedd dysgu; neu fynychu cynadleddau (oni bai eich bod yn cyflwyno poster neu sgwrs). Os nad yw'r ymgeisydd yn siŵr a fyddai eu gofyniad arfaethedig am nwyddau traul yn cael ei dalu, fe'u cynghorir i gysylltu â wcrc@cardiff.ac.uk

Pwy sy'n gymwys i wneud cais?

Er mwyn gwneud cais am y Wobr Dechrau Gyrfa, rhaid i ymgeiswyr fodloni'r meini prawf cymhwysedd canlynol:

- Rhaid bod mewn swydd anghlinigol o fewn grŵp ym Prifysgol Caerdydd, Abertawe neu Bangor
- Rhaid cael cefnogaeth goruchwyliwr cynhaliol i ymgymryd â'r gwaith yn eu labordy neu grŵp
- Rhaid bod â ffurflen cymeradwyo costau sefydliadol sy'n cadarnhau hyfywedd y prosiect a bod eu sefydliad addysg uwch yn talu gorbenion cyflog (mae cyfarwyddiadau fesul sefydliad wedi'u rhestru yn y rhestr wirio dogfennau ar ddiwedd y canllawiau)
- Os nad ydynt wedi derbyn eu PhD eto, mae'n rhaid eu bod wedi cyflwyno eu traethawd ymchwil cyn i'r cyllid hwn ddechrau
- Os ydynt eisoes wedi derbyn eu PhD, rhaid y bu dyddiad dyfarnu'r PhD o leiaf 12 mis cyn dyddiad cau'r cais (heb gynnwys absenoldeb mamolaeth neu ofalwr)



Allbynnau gofynnol

Bydd angen i ymgeiswyr ragnodi cynllun ariannu targed fel ffynhonnell ariannu dilynol ar gyfer eu cyflog, y byddant yn gallu gwneud cais amdano o fewn y ffenestr ariannu. Felly, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ganiatáu digon o amser yn ystod cyfnod y dyfarniad cyllid i glywed canlyniad eu cais am gyllid dilynol a/neu gael cyllid pontio yn ei le.

Mae WCRC hefyd yn disgwyl ymgeiswyr i ddiffinio allbynnau ychwanegol sy'n berthnasol i'r prosiect, megis (ond heb fod yn gyfyngedig i) cynhyrchu gwaith peilot, creu data rhagarweiniol, datblygu modelau newydd; caffael sgiliau newydd, cyflwyno gwaith mewn cynadleddau, a chyhoeddi gwaith mewn cyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid.

Disgwylir i ddeiliaid gwobrau gymryd rhan hefyd mewn gweithgareddau dan arweiniad WCRC megis diwrnodau gweithdy, neu gyfranogiad y cyhoedd mewn digwyddiadau gwyddoniaeth, a bydd yn ofynnol iddynt ddarparu diweddariadau chwarterol ar gyfer adroddiadau WCRC.

Y broses ddethol:

Bydd pob cais yn cael ei sgrinio am gymhwysedd, yna'n cael ei adolygu gan ein panel, sy'n cynnwys arweinwyr academiaidd WCRC, partner ymchwil lleig WCRC, a chynrychiolwyr prifysgolion Cymru. Bydd y panel yn adolygu ac yn sgorio pob cais yn unigol, a bydd y sgoriau cyfunol yn llywio'r rhestr fer.

Bydd pob ymgeisydd sydd wedi cyrraedd y rhestr fer yn cael gwahoddiad i gyfweiliad, a gynhelir ar **dydd Iau 4 Medi 2025**.

Bydd yr ymgeiswyr yn cael eu gwerthuso ar sail y meini prawf canlynol:

- Cymwysterau, a thystiolaeth bod yr ymgeisydd wedi'i chyhoeddi mewn cyfnodolyn cenedlaethol/rhyngwladol a/neu wedi'i chyflwyno mewn cynhadledd genedlaethol/rhyngwladol
- Cefnogaeth eu sefydliad cynnal – ar sail datganiad y goruchwyliwr, ffurflenni cost cymeradwy, a ffurflen gais
- Cryfder cynlluniau'r ymgeisydd ar gyfer cyllid dilynol, a sut bydd hyn yn arwain at yrfa ymchwil annibynnol, ac ymrwymiad yr ymgeisydd i ddatblygiad proffesiynol parhaus
- Y cynnig ymchwil yn cyd-fynd â CReSt
- Rhinwedd wyddonol y cynnig ymchwil, dealltwriaeth yr ymgeisydd o ddulliau a dadansoddiadau ymchwil wyddonol, a sut bydd y gwaith hwn yn ffitio i mewn i ddarlun ehangach ymchwil canser
- Hyfywedd y cais – ar sail hyd y cyllid y mae gofyn amdano, y canlyniadau a'r allbynnau arfaethedig, a graddfa'r gwaith



Amserlenni

**dydd Mawrth
10fed Mehefin 2025**

Cyfnod ymgeisio

Cyfnod ymgeisio'n
dod i ben

Dydd Mercher 30 Gorffennaf 2025
am 12:00 (hanner dydd)

Dydd Gwener 22 Awst 2025

Gwahodd ymgeiswyr ar y
rhestr fer i gyfweiliad

Cyfweiliadau

Dydd Iau 4 Medi 2025

Dydd Gwener 5 Medi 2025

Rhoddir gwybod i'r
ymgeiswyr am y
canlyniad

Cyllid yn dechrau
(gan ddibynnu ar hyd y
prosiect arfaethedig a'r
dyddiad cychwyn
gofynnol)

Hydref 2025 - Awst 2026

**Pwynt
adolygu
hanner**

Pwynt adolygu hanner
ffordd gydag
academyddion WCRC ar
gyfer cymorth, arweiniad,
a gwirio cynnydd

Sut i wneud cais

Er mwyn gwneud cais, rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r dogfennau a ddiffinnir yn y rhestr wirio dogfennau isod.

Rhestr Gwirio Dogfennau

Dogfennau	Manylion
Ffurflen gais	Rhaid cwblhau'r ffurflen gais yn llawn. Gall ymgeiswyr lawrlwytho'r ffurflen gais <u>yma</u> .
Amserlen y gweithgaredd arfaethedig	Amserlen o'r gweithgaredd arfaethedig (uchafswm o 1 tudalen A4) i ddangos: - Cerrig milltir disgwyliedig ac amserlenni'r gwaith - Trosolwg o sut mae'r ymgeisydd yn disgwyl treulio ei amser yn cwblhau'r gwaith hwn
Ffigur cryno	Ffigur cryno (uchafswm o 1 tudalen A4) i ddangos: - Trosolwg o'r gwaith y maent yn bwriadu ei wneud - Unrhyw ddata rhagarweiniol y byddant yn ei ddefnyddio yn y gwaith hwn - Unrhyw gynrychiolaeth trwy ddiagramau sy'n helpu i egluro'r gwaith y byddant yn ei gyflawni
CV	Rhaid i CV yr ymgeisydd fod: - Dim mwy na 2 dudalen A4 - Cynnwys pob cymhwyster academiaidd - Cynnwys cyflogaeth gyfredol - Cynnwys unrhyw wobrau neu ysgoloriaethau a ddyfarnwyd i'r ymgeisydd - Cynnwys rhestr o unrhyw gyhoeddiadau y mae'r ymgeisydd yn awdur a enwir arnynt
Datganiad o gefnogaeth y goruchwyliwr	Rhaid i ddatganiad o gefnogaeth y goruchwyliwr: - Fod wedi'i lofnodi a'i ddyddio - Peidio â bod yn fwy nag 1 tudalen A4 - Dangos addasrwydd yr ymgeisydd ar gyfer y wob, a'u cymhelliant i ddilyn gyrfa ymchwil annibynnol - Rhoi sicrwydd bod cymorth goruchwyliwr yn ogystal â chymorth SAU a bod arian ar gael ar gyfer costau cyffredinol ac unrhyw gostau prosiect ychwanegol a allai fod yn ofynnol - Cadarnhewch y bydd y goruchwyliwr yn ei swydd am gyfnod y dyfarniad
Ffurflen costau cymeradwy'r sefydliad	Er mwyn rhoi sicrwydd y bydd costau cyffredinol sefydliadol a chostau anghymwys yn cael eu talu gan y SAU sy'n cynnal yr ymgeisydd, mae angen i'r sefydliad gymeradwyo'r costau arfaethedig. - Prifysgol Caerdydd: Ffurflen Prisio a Phrisio Cymeradwy (CAP) neu gyfwerth â Worktribe - Prifysgol Bangor: Ffurflen Costau Economaidd Llawn (CELL) Cymeradwy - Prifysgol Abertawe: Adroddiad cymeradwy gan System Rheoli Gwobrau (AWS) Prifysgol Abertawe

Sut i wneud cais

Ar ôl ei gwblhau, cyflwynwch geisiadau drwy e-bost –

I: wcrc@caerdydd.ac.uk

Dyddiad cau: Dydd Mercher 30 Gorffennaf 2025 am 12:00 (hanner dydd)

Llinell bwnc: Cais am Wobr Dechrau Gyrfa WCRC

Atodiadau: Yr holl ddogfennau gofynnol (gweler y rhestr wirio dogfennau)

Caniateir cyflwyno ffurflen gais yn Gymraeg ac ni fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Sylwer: ni dderbynnir ceisiadau newydd a/neu ddiweddariadau i geisiadau ar ôl y dyddiad cau. Os hoffech dynnu eich cais yn ôl am unrhyw reswm ar ôl ei gyflwyno, cysylltwch â WCRC gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost isod.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen rhagor o arweiniad arnoch, cysylltwch â wcrc@cardiff.ac.uk gan nodi 'Gwobr Dechrau Gyrfa' yn y llinell bwnc.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais



Canolfan
Ymchwil
Cancer
Cymru

Wales
Cancer
Research
Centre

